

SL(6)485 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu Darllen a Rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru) 2024 ("y Rheoliadau hyn") yn rhoi effaith gyfreithiol i'r trefniadau asesu ar gyfer darllen a rhifedd yn y Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â disgyblion sy'n mynychu ysgolion (heblaw am ysgol arbennig gymunedol a sefydlir mewn ysbyty) a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru ("yr asesiadau personol cenedlaethol").

Mae'r asesiadau personol cenedlaethol yn cymryd lle'r profion darllen a rhifedd ("y profion cenedlaethol") y rhoddir effaith gyfreithiol iddynt gan Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 ("Gorchymyn 2013"). Bydd Rheoliadau Addysg (Dirymu Trefniadau Asesu yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn dirymu Gorchymyn 2013 ar 1 Medi 2024.

Mae'r asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu sefyll ar lein ac yn asesu'r un sgiliau â'r profion cenedlaethol. Fodd bynnag, ceir rhai gwahaniaethau o ran y ffordd y bydd yr asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu rhoi o'i chymharu â'r ffordd y mae'r profion cenedlaethol wedi cael eu rhoi. Mae'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cynnwys rhestr o'r gwahaniaethau hyn.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth"). Mae paragraff 6 o Ran 2 o'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ddarparu sylwadau cryno am ganlyniadau'r profion cenedlaethol ("y rhwymedigaeth i adrodd"). O ganlyniad i ddirymu Gorchymyn 2013 o 1 Medi 2024, mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi cyfeiriad at y Rheoliadau hyn yn lle cyfeiriad at Orchymyn 2013 ym mharagraff 6 o Ran 2 o'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth. Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau y bydd y rhwymedigaeth i adrodd yn parhau mewn perthynas â'r asesiadau personol cenedlaethol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.



Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 4 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diffinio "llawlyfr gweinyddu'r APC" drwy gyfeirio at y ddogfen o'r enw "Asesiadau Personol Cenedlaethol ar Gyfer Darllen a Rhifedd: llawlyfr gweinyddu", sef canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd. Mae'r diffiniad o "canllawiau datgymhwyso'r APC" ("the NPA disapplication guidance") yn rheoliad 2 hefyd yn cyfeirio at y llawlyfr hwnnw.

Er y nodir bod y fersiwn o'r llawlyfr a gyhoeddir ar hyn o bryd ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gofynion ar gyfer blwyddyn academaidd 2023 i 2024, er mwyn cynorthwyo hygyrchedd byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r Rheoliadau hyn wedi cynnwys hyperlinc, drwy gyfrwng troednodyn, i'r adran o wefan Hwb lle bydd fersiynau wedi'u diweddarau o'r llawlyfr ar gael o bryd i'w gilydd.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodir bod disgyblion ym mlwyddyn 4 i flwyddyn 9 yn destun gofynion gwahanol o ran yr Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen y mae'n rhaid ei roi iddynt yn dibynnu ar y cyfrwng iaith y mae'r rhan fwyaf o wersi'r disgybl hwnnw yn cael eu haddysgu drwyddo. Dyma barhad polisi sydd wedi bodoli o dan Orchymyn 2013 mewn perthynas â'r profion cenedlaethol.

Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn darparu bod rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i'r Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen – Cyfrwng Cymraeg ("APCDCC") gael ei roi i bob disgybl ym mlwyddyn 2 i flwyddyn 9 (fel y diffinnir yn rheoliad 2) o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ysgol, pan fo'r mwyafrif o wersi'r disgybl hwnnw, ym marn y pennaeth, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr un modd, mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn darparu bod rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i'r Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen – Cyfrwng Saesneg ("APCDCS") gael ei roi i bob disgybl ym mlwyddyn 2 a blwyddyn 3 o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ysgol, pan fo'r mwyafrif o wersi'r disgybl hwnnw, ym marn y pennaeth, yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Hefyd, rhaid gwneud trefniadau i'r Asesiad Personol Cenedlaethol ar gyfer Darllen – Cyfrwng Saesneg ("APCDCS") gael ei roi i bob disgybl ym mlwyddyn 4 i



flwyddyn 9 o leiaf un waith ym mhob blwyddyn ysgol, ond nid yw'n nodi ym mha gyfrwng y caiff gwersi'r disgyblion hynny eu haddysgu.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd angen rhoi'r APCDCC a'r APCDCS o leiaf un waith ym mhob blwyddyn ysgol i ddisgyblion ym mlwyddyn 4 i flwyddyn 9 mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn wahanol i ddisgyblion ym mlwyddyn 4 i flwyddyn 9 mewn addysg cyfrwng Saesneg; dim ond yr APCDCS y bydd angen ei roi i'r disgyblion hynny.

Caiff hyn ei grynhai mewn canllawiau statudol o'r enw "[Asesiadau Personol Cenedlaethol ar Gyfer Darllen a Rhifedd: llawlyfr gweinyddu](#)" a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru sy'n nodi trefniadau gweinyddol yr asesiadau personol cenedlaethol. Mae'r ddogfen honno'n nodi, yn yr adran sy'n dwyn y teitl "Gofynion ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg": "*Mae'n ofynnol i ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 4 i 9 mewn addysg cyfrwng Cymraeg sefyll yr asesiadau personol Darllen Cymraeg a Saesneg. Nid oes asesiad personol Darllen Cymraeg ar gyfer dysgwyr mewn addysg cyfrwng Saesneg.*"

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodir na chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yn egluro:

"Nid yw Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymgynghoriad cyn gwneud darpariaeth ar gyfer asesu yn unol ag adran 56(1), (3) a (6) neu adran 74(1)(a) o'r Ddeddf honno. Yn ychwanegol, diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau parhad y trefniadau presennol ar gyfer asesu ac adrodd mewn perthynas â sgiliau darllen a rhifedd. Mae'r asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu sefyll ar lein ac yn asesu'r un sgiliau â'r profion cenedlaethol.

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod ceir rhai gwahaniaethau o ran y ffordd y bydd yr asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu rhoi o'i chymharu â'r ffordd y mae'r profion cenedlaethol wedi cael eu rhoi. Gwnaed y newidiadau hynny i adlewyrchu'r arferion cyfredol a lleddfu'r baich ar ysgolion wrth roi'r asesiadau. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd angen ymgynghoriad ac y byddai'n ychwanegu'n ddiangen at faich ysgolion wrth ystyried yr ymatebion.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y gofynion ar gyfer rhoi'r asesiadau yn cyd-fynd â'r arferion cyfredol mewn ysgolion. Ni fyddant yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid na staff ysgolion eraill wneud unrhyw beth ychwanegol i'r arferion cyfredol, ac ar gyfer rhai agweddau nad ydynt bellach yn berthnasol i gyflwyno'r asesiadau ar-lein, mae'r gofynion yn cael eu dileu."

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn egluro yr ystyriwyd [Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol](#) a na chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol am y rhesymau a nodwyd yn adran 6 (Asesiad Effaith Rheoleiddiol) o'r Memorandwm Esboniadol.



Mae'r Cod Ymarfer Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn egluro y bydd Gweinidogion Cymru yn cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol bob amser ar gyfer is-ddeddfwriaeth berthnasol Gymreig, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a nodir ym mharagraff 3.2 Cod Ymarfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys "*Lle y mae diwygiadau ffeithiol yn cael eu gwneud i ddiweddar is-ddeddfwriaeth ac nad ydynt yn newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol*" neu "*Lle bo angen diwygiadau technegol i newid geiriad y gyfraith yn hytrach na'i diben neu ei heffaith.*"

Nodir nad yw'r Rheoliadau hyn yn diwygio is-ddeddfwriaeth bresennol. Maent yn Rheoliadau annibynnol sydd wedi'u cynllunio i ddisodli Gorchymyn 2013 (sy'n cael eu dirymu ar 1 Medi 2024 gan Reoliadau 2022), ac maent yn rhoi effaith gyfreithiol i'r trefniadau asesu newydd ar gyfer darllen a rhifedd.

Er y bydd yr asesiadau personol cenedlaethol yn asesu'r un sgiliau â'r profion cenedlaethol, byddant yn cael eu sefyll ar-lein a byddant yn ddarostyngedig i newidiadau gweinyddol penodol, fel yr eglurir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn, er mwyn "*lleihau'r baich ar ysgolion ac yn adlewyrchu'r arferion cyfredol*". Er enghraifft, nid yw'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sy'n cynnal ysgolion fonitro'r ffordd y caiff yr asesiadau personol cenedlaethol eu gweinyddu, er mwyn "*lleihau'r baich ar awdurdodau lleol a'r ysgolion yn eu hardal*". Ar hyn o bryd o dan erthygl 7 o Orchymyn 2013, sydd i'w ddiddymu o 1 Medi 2024, mae rhwymedigaeth ar awdurdodau monitro i ymweld, mewn unrhyw flwyddyn ysgol, â 10 y cant o'r holl '*ysgolion perthnasol*' yn ystod un o'r cyfnodau a restrir sy'n agos at, neu yn ystod, rhoi'r profion cenedlaethol i ddisgyblion. O ganlyniad i'r newid hwn, ni fydd yn ofynnol mwyach i Weinidogion Cymru ymchwilio i unrhyw fater a allai fod wedi cael ei gyfeirio atynt o ganlyniad i asesiadau monitro neu gywiro unrhyw ganlyniadau fel y bo'n briodol.

Mae'n ymddangos bod rhai o'r newidiadau gweinyddol hyn a rhoi effaith gyfreithiol i'r trefniadau ar gyfer gweinyddu'r asesiadau personol cenedlaethol newydd yn symud y tu hwnt i welliannau "*ffeithiol*" neu "*technegol*", a hefyd yn effeithio ar sut mae'r polisi yn "*cael ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol*". Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y "*polisi y rhoddir effaith gyfreithiol iddo yn y Rheoliadau hyn yn aros yr un fath*", mae'n mynd ymlaen i egluro newidiadau rhwng y ffordd y bydd yr asesiadau personol cenedlaethol yn cael eu rhoi o'i chymharu â'r ffordd y mae'r profion cenedlaethol wedi cael eu rhoi. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn datgan bod hyn yn "*adlewyrchu'r arferion cyfredol*", rhoddir effaith gyfreithiol i'r arfer hwnnw drwy'r Rheoliadau hyn a dirymu Gorchymyn 2013 gan Reoliadau 2022.

Awgrymir y byddai asesiad o'r costau a'r buddion drwy Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cynorthwyo dealltwriaeth a'r broses o graffu ar y newidiadau hyn, a'r rhesymau pam eu bod yn cael eu hystyried yn fuddiol.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu ar rinweddau. Mae Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r Archifau Gwladol i ganfod a oes modd cyhoeddi slip cywiro er mwyn cynnwys yr hyperddolen berthnasol ar gyfer y Rheoliadau hyn. Byddwn yn ystyried cynnwys hyperddolenni priodol mewn unrhyw ddiwygiadau i'r Rheoliadau yn y dyfodol.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4: Nodir sylwadau'r Pwyllgor. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei gwblhau yn unol â Chod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn cysylltiad â diwygiadau o sylwedd i'r Rheoliadau yn y dyfodol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 3 Mehefin 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

